DOD O HYD INI

Bron Brawf Cymru, Ellice Way, Parc Technoleg Wrecsam, LL13 7YT
Ffôn: 01492 860888 Ffacs: 01492 871094

BRON BRAWF CYMRU
SUT MAE MYND I GANOLFAN WRECSAM

Wrth ddod o'r de neu'r gogledd ar yr A483

Cymerwch y tro am yr Wyddgrug.
Wrth ddod o'r de: Cymerwch y 4ydd tro oddi ar y gylchfan gan ddilyn yr arwyddion am Ganol Tref Wrecsam.
Wrth ddod o'r gogledd: Cymerwch y tro 1af oddi ar y gylchfan gan ddilyn yr arwyddion am Ganol Tref Wrecsam.

Arhoswch wedyn yn y lôn dde. Wrth y gylchfan nesaf, trowch i'r dde gan ddilyn yr arwydd "Ysbyty". Ewch heibio i **B&Q** at y gylchfan nesaf ac ewch yn syth yn eich blaen. Dewiswch y tro nesa i'r chwith gan ddilyn arwyddion Bron Brawf Cymru i **Ellice Way** (ychydig cyn y gwesty Ramada newydd). Dilynwch y ffordd a chymerwch yr ail dro i'r dde (gan ddilyn arwyddion Bron Brawf Cymru).

O ganol y dre

Wrth ddod o gyfeiriad canolfan siopa ***Island Green***, dilynwch arwyddion **Ysbyty Maelor**. Ewch heibio i'r Ysbyty (ar y chwith), trowch i'r dde wrth y gylchfan ac i'r dde eto gan ddilyn arwyddion Bron Brawf Cymru i **Ellice Way** (ychydig ar ôl y gwesty Ramada newydd). Dilynwch y ffordd a chymerwch yr ail dro i'r dde (gan ddilyn arwyddion Bron Brawf Cymru).

O gylchfan ASDA yn Wrecsam

Wrth ddod o gyfeiriad cylchfan **ASDA** gyda'r siop ar y dde, ewch heibio i orsaf yr heddlu ar y chwith, yn syth ymlaen wrth y gylchfan fach ac ymlaen wedyn at y goleuadau traffig ar **Ffordd Grosvenor**. Dewiswch y lôn chwith wrth y goleuadau, ewch heibio i'r orsaf dân ar y chwith gan droi i'r dde wrth y gylchfan a mynd heibio i **Ysbyty Maelor**. Trowch i'r dde wrth y gylchfan nesaf ac i'r dde eto gan ddilyn arwyddion Bron Brawf Cymru i **Ellice Way** (ychydig ar ôl y gwesty Ramada newydd). Dilynwch y ffordd a chymerwch yr ail dro i'r dde (gan ddilyn arwyddion Bron Brawf Cymru).



Version 1. 01/03/2008